OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1367 (Cy. 303)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") ac maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynnwys sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ("SOAA") yn y rhestr ("y rhestr o SOAAau") a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 56(2) o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau yn manylu ar gynnwys y rhestr o SOAAau gan gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r trefniadau yn yr SOAA (rheoliad 3).

Mae rheoliad 4 yn manylu ar sut y caniateir gwneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r trefniadau yn yr SOAA.

Mae rheoliad 5 yn manylu ar y gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn i SOAA gael ei gynnwys yn y rhestr o SOAAau ac mae rheoliad 6 yn manylu ar y gofynion y mae angen cydymffurfio â hwy er mwyn i'r SOAA barhau i gael ei gynnwys yn y rhestr o SOAAau.

Os yw perchennog yn dymuno gwneud newidiadau i'r trefniadau sydd wedi eu cymeradwyo yn yr SOAA, yna caiff perchennog yr SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r newid (rheoliad 7).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1367 (W. 303)

# EDUCATION, WALES

## The Additional Learning Needs (List of Independent Special Post-16 Institutions) (Wales) Regulations 2020

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under section 56 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 ("the Act") and they make provision in relation to the inclusion of an independent special post-16 institution ("ISPI") within the list ("the ISPI list") published by the Welsh Ministers under section 56(2) of the Act.

The Regulations details the contents of the ISPI list including certain information relating to the arrangements at the ISPI (regulation 3).

Regulation 4 details how an application may be made to the Welsh Ministers to approve the arrangements at the ISPI.

Regulation 5 details the requirements that must be complied with in order for an ISPI to be included within the ISPI list and regulation 6 details the requirements that need to be complied with for the ongoing inclusion of the ISPI in the ISPI list.

Should a proprietor wish to make changes to the approved arrangements at the ISPI, then the proprietor of the ISPI may apply to the Welsh Ministers for approval of the change (regulation 7).

Mae rheoliad 8 yn darparu y caiff perchennog SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i ddileu'r SOAA o'r rhestr o SOAAau.

Mae rheoliad 9 yn manylu ar yr hyn y caiff Gweinidogion Cymru ei ystyried wrth benderfynu a ddylid dileu SOAA o'r rhestr o SOAAau. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylid dileu SOAA o'r rhestr o SOAAau, mae angen iddynt hysbysu'r perchennog a phob un o awdurdodau lleol Cymru am y penderfyniad hwnnw (rheoliad 10).

Mae rheoliad 11 yn manylu ar yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn cysylltiad â phenderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod rhestru SOAA, i ddileu SOAA o'r rhestr o SOAAau neu i beidio â chymeradwyo trefniadau neu newid mewn trefniadau yn yr SOAA. Mae rheoliad 12 yn manylu ar sut y caiff y Tribiwnlys ddyfarnu ar apêl a wneir o dan reoliad 11.

Y Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 8 provides that a proprietor of an ISPI may apply to the Welsh Ministers for the removal of the ISPI from inclusion in the ISPI list.

Regulation 9 details what the Welsh Ministers may take into account when deciding whether an ISPI should be removed from the ISPI list. If the Welsh Ministers decide that an ISPI should be removed from the ISPI list, they need to inform the proprietor and all Welsh local authorities of that decision (regulation 10).

Regulation 11 details the right of appeal to the First Tier Tribunal in respect of a decision of the Welsh Ministers to refuse to list an ISPI, to remove an ISPI from the ISPI list, not to approve arrangements or a change of arrangements at the ISPI. Regulation 12 details how the Tribunal may determine an appeal made under regulation 11.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Education, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1367 (Cy. 303)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *30 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 a deuant i rym ar 4 Ionawr 2021.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "DDdY" ("*ALP*") yw darpariaeth ddysgu ychwanegol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

ystyr "y rhestr" ("*the list*") yw'r rhestr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 56(2) o'r Ddeddf;

(**1**) 2018 dccc 2.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1367 (W. 303)

# EDUCATION, WALES

## The Additional Learning Needs (List of Independent Special Post-16 Institutions) (Wales) Regulations 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 November 2020* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *30 November 2020* |
| *Coming into force* | *4 January 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 56 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**1**), make the following Regulations:

**Title and commencement**

**1.** The title of these Regulations is the Additional Learning Needs (List of Independent Special Post-16 Institutions) (Wales) Regulations 2020 and they come into force on 4 January 2021.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018;

"ALP" ("*DDdY*") means additional learning provision;

"arrangements at the ISPI" ("*trefniadau yn yr SOAA*") means the arrangements listed in regulation 3(b).

(**1**) 2018 anaw 2.

ystyr "SOAA" ("*ISPI*") yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol o fewn ystyr adran 56(6) o'r Ddeddf;

ystyr "trefniadau yn yr SOAA" ("*arrangements at the ISPI*") yw'r trefniadau a restrir yn rheoliad 3(b).

**Y rhestr o SOAAau**

**3.** Rhaid i'r rhestr gynnwys, mewn cysylltiad â phob SOAA sydd wedi ei gynnwys—

(a) yr wybodaeth a ganlyn—

(i) ei enw masnachu;

(ii) cyfeiriad y wefan (os yw ar gael);

(iii) ei gyfeiriad;

(iv) a yw'n darparu llety preswyl;

(v) y dyddiad y cynhwyswyd yr SOAA yn y rhestr;

(vi) y dyddiad y cymeradwywyd unrhyw newidiadau i'r trefniadau yn yr SOAA gan Weinidogion Cymru;

(b) yr wybodaeth a ganlyn sy'n ymwneud â threfniadau yn yr SOAA—

(i) ystod oedran y personau y mae'r SOAA yn darparu ar eu cyfer;

(ii) nifer y personau y mae'r SOAA yn darparu ar eu cyfer;

(iii) y perchennog;

(iv) y math o DDdY a ddarperir gan yr SOAA.

**Trefniadau SOAAau**

**4.**—(1) Caiff perchennog SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo trefniadau yn yr SOAA.

(2) Rhaid i gais am gymeradwyaeth o dan y rheoliad hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r perchennog pa un a ydynt yn cymeradwyo'r trefniadau ai peidio.

(4) Rhaid i'r perchennog ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r trefniadau yn yr SOAA sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru.

**Gofynion i gydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys SOAA yn y rhestr**

**5.**—(1) Caiff perchennog SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i gynnwys SOAA yn y rhestr.

(2) Er mwyn i SOAA gael ei gynnwys yn y rhestr—

"ISPI" ("*SOAA*") means an independent special post-16 institution within the meaning of section 56(6) of the Act;

"the list" ("*y rhestr*") means the list published by the Welsh Ministers under section 56(2) of the Act.

**The ISPI list**

**3.** The list must contain, in respect of each ISPI included—

(a) the following information—

(i) its trading name;

(ii) the website address (if available);

(iii) its address;

(iv) whether it provides residential accommodation;

(v) the date that the ISPI was included in the list;

(vi) the date that any changes to the arrangements at the ISPI were approved by the Welsh Ministers;

(b) the following information relating to arrangements at the ISPI—

(i) the age range of the persons that the ISPI caters for;

(ii) the number of persons that the ISPI caters for;

(iii) the proprietor;

(iv) the type of ALP provided by the ISPI.

**ISPI arrangements**

**4.**—(1) The proprietor of an ISPI may apply to the Welsh Ministers for approval of arrangements at the ISPI.

(2) An application for approval under this regulation must be made in writing.

(3) The Welsh Ministers must notify the proprietor whether or not they approve the arrangements.

(4) The proprietor must provide the Welsh Ministers with any information relating to the arrangements at the ISPI that the Welsh Ministers may reasonably require.

**Requirements to be complied with as a condition of being included in the list**

**5.**—(1) The proprietor of an ISPI may apply to the Welsh Ministers for the inclusion of an ISPI in the list.

(2) In order for an ISPI to be included in the list—

(a) rhaid bod y trefniadau yn yr SOAA wedi eu cymeradwyo;

(b) rhaid i berchennog yr SOAA ddarparu'r canlynol i Weinidogion Cymru—

(i) yr wybodaeth a grybwyllir yn rheoliad 3(a)(i) – (iv);

(ii) tystiolaeth sy'n bodloni Gweinidogion Cymru bod yr SOAA yn ariannol hyfyw;

(iii) tystiolaeth sy'n bodloni Gweinidogion Cymru o ran ansawdd y DDdY a ddarperir yn yr SOAA gan gynnwys—

(aa) (os yw'r SOAA yng Nghymru) adroddiadau sy'n ymwneud â'r SOAA gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Weinidogion Cymru (os ydynt ar gael);

(bb) (os yw'r SOAA yn Lloegr) adroddiadau sy'n ymwneud â'r SOAA gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (os ydynt ar gael);

(iv) unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r DDdY neu reoli neu lywodraethu'r SOAA sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r perchennog pa un a gaiff yr SOAA ei gynnwys yn y rhestr ai peidio.

**Gofynion i gydymffurfio â hwy tra bo'r SOAA wedi ei gynnwys yn y rhestr**

**6.** Rhaid i SOAA sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr, yn dilyn cais gan Weinidogion Cymru, ddarparu'r wybodaeth a ganlyn iddynt—

(a) tystiolaeth sy'n bodloni Gweinidogion Cymru bod yr SOAA yn ariannol hyfyw;

(b) tystiolaeth sy'n bodloni Gweinidogion Cymru o ran ansawdd y DDdY gan gynnwys—

(i) (os yw'r SOAA yng Nghymru) adroddiadau sy'n ymwneud â'r SOAA gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Weinidogion Cymru (os ydynt ar gael);

(ii) (os yw'r SOAA yn Lloegr) adroddiadau sy'n ymwneud â'r SOAA gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (os ydynt ar gael);

(a) the arrangements at the ISPI must have been approved;

(b) the proprietor of the ISPI must provide the Welsh Ministers with the following—

(i) the information mentioned in regulation 3(a)(i) – (iv);

(ii) evidence that satisfies the Welsh Ministers that the ISPI is financially viable;

(iii) evidence that satisfies the Welsh Ministers as to the quality of the ALP provided at the ISPI including—

(aa) (if the ISPI is in Wales) reports relating to the ISPI by Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales or the Welsh Ministers (if available);

(bb) (if the ISPI is in England) reports relating to the ISPI by Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills or the Care Quality Commission (if available);

(iv) any other information relating to the ALP, the management or the governance of the ISPI that the Welsh Ministers may reasonably require.

(3) The Welsh Ministers must notify the proprietor whether or not the ISPI will be included in the list.

**Requirements to be complied with while the ISPI is included in the list**

**6.** An ISPI included in the list must, following a request from the Welsh Ministers, provide them with the following information—

(a) evidence that satisfies the Welsh Ministers that the ISPI is financially viable;

(b) evidence that satisfies the Welsh Ministers as to the quality of the ALP including—

(i) (if the ISPI is in Wales) reports relating to the ISPI by Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales or the Welsh Ministers (if available);

(ii) (if the ISPI is in England) reports relating to the ISPI by Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills or the Care Quality Commission (if available);

(c) unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r DDdY, rheoli neu lywodraethu'r SOAA neu'r trefniadau yn yr SOAA sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru.

### Newid i drefniadau

**7.**—(1) Caiff perchennog SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo newid yn y trefniadau yn yr SOAA.

(2) Rhaid i gais am gymeradwyaeth o dan y rheoliad hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig ac, yn achos cymeradwyaeth i newid perchennog, rhaid i'r perchennog newydd arfaethedig wneud y cais.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r perchennog ac unrhyw berchennog newydd arfaethedig a pa un ydynt yn cymeradwyo'r newid i'r trefniadau ai peidio.

### Cais gan y perchennog i ddileu'r SOAA o'r rhestr

**8.**—(1) Caiff perchennog SOAA wneud cais i Weinidogion Cymru i ddileu'r SOAA o'r rhestr.

(2) Rhaid i gais i ddileu o dan y rheoliad hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig a phennu dyddiad o leiaf 28 o ddiwrnodau o ddyddiad y cais.

(3) Bydd dileu'r SOAA o'r rhestr yn cymryd effaith—

(a) ar y dyddiad a bennir yn y cais; neu

(b) ar ddyddiad y cytunir arno rhwng perchennog yr SOAA a Gweinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu pob awdurdod lleol yng Nghymru o'r dyddiad y bydd yr SOAA yn cael ei ddileu o'r rhestr.

### Ystyried dileu'r SOAA o'r rhestr

**9.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ystyried y canlynol wrth benderfynu pa un ai i ddileu SOAA o'r rhestr—

(a) tystiolaeth sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol yr SOAA;

(b) yr adroddiadau sy'n ymwneud â'r SOAA y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(2);

(c) unrhyw dystiolaeth a ddaw i law o ganlyniad i gais o dan reoliad 6; a

(d) unrhyw bryderon difrifol am yr SOAA a ddaw i law gan awdurdod lleol, person sy'n mynychu'r SOAA neu gan unrhyw berson arall.

(c) any other information relating to the ALP, the management or the governance of the ISPI or the arrangements at the ISPI that the Welsh Ministers may reasonably require.

### Change to arrangements

**7.**—(1) The proprietor of an ISPI may apply to the Welsh Ministers for approval of a change in the arrangements at the ISPI.

(2) An application for approval under this regulation must be made in writing and, in the case of approval of a change of proprietor, must be made by the proposed new proprietor.

(3) The Welsh Ministers must notify the proprietor and any proposed new proprietor whether or not they approve the change to the arrangements.

### Application by proprietor for removal of the ISPI from the list

**8.**—(1) The proprietor of an ISPI may apply to the Welsh Ministers for the removal of the ISPI from the list.

(2) An application for removal under this regulation must be made in writing and specify a removal date at least 28 days from the date of the application

(3) The removal of the ISPI from the list will take effect—

(a) on the date specified in the application; or

(b) on a date agreed between the proprietor of the ISPI and the Welsh Ministers.

(4) The Welsh Ministers must notify all local authorities in Wales of the date that the ISPI will be removed from the list.

### Consideration of removal of the ISPI from the list

**9.**—(1) The Welsh Ministers may take into account the following when deciding whether to remove an IPSI from the list—

(a) evidence relating to the financial viability of the ISPI;

(b) the reports relating to the ISPI referred to in regulation 5(2);

(c) any evidence received as a result of a request under regulation 6; and

(d) any serious concerns about the ISPI received from a local authority, a person attending the ISPI or from any other person.

**Dileu o'r rhestr**

**10.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu dileu SOAA o'r rhestr, rhaid iddynt hysbysu perchennog yr SOAA am y penderfyniad hwnnw.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu pob awdurdod lleol yng Nghymru am y penderfyniad hwnnw.

(3) Caiff yr SOAA ei ddileu o'r rhestr yn unol â rheoliad 11(3) neu 12(3) (yn ôl y digwydd) os yw'r perchennog yn arfer yr hawl i apelio y cyfeirir ati yn rheoliad 11, ac ym mhob achos arall bydd y dileu yn cymryd effaith ar ôl i 28 o ddiwrnodau ddod i ben sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o'r penderfyniad i ddileu i'r perchennog.

**Hawl i apelio**

**11.**—(1) Caiff perchennog SOAA apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad—

(a) i wrthod rhestru SOAA;

(b) i ddileu SOAA o'r rhestr;

(c) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn yr SOAA;

(d) i beidio â chymeradwyo newid i drefniadau yn yr SOAA.

(2) Rhaid i apêl gael ei chyflwyno o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad i wrthod, i ddileu, neu i beidio â chymeradwyo i'r perchennog ("y cyfnod apelio").

(3) Pan fo apêl yn cael ei gwneud yn erbyn penderfyniad i ddileu SOAA o'r rhestr—

(a) os caiff yr apêl ei thynnu'n ôl neu ei gwaredu fel arall cyn i'r tribiwnlys ddyfarnu arni o dan reoliad 12, caiff Gweinidogion Cymru ddileu'r SOAA o'r rhestr ar unrhyw ddyddiad ar ôl y cyfnod apelio y maent yn ei benderfynu, a

(b) mewn unrhyw achos arall, dim ond yn unol â'r dyfarniad a wneir gan y tribiwnlys o dan reoliad 12 y caiff Gweinidogion Cymru ddileu'r SOAA o'r rhestr.

(4) Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i ddileu SOAA o'r rhestr, os yw'r tribiwnlys, ar unrhyw adeg, yn ystyried bod perygl o niwed difrifol i les personau cyn y dyfernir ar yr apêl, caiff drwy orchymyn ddarparu bod yr SOAA i'w ystyried fel pe na bai wedi ei gynnwys ar y rhestr at ddibenion adran 56(3) o'r Ddeddf hyd nes y bydd y tribiwnlys yn dyfarnu ar yr apêl o dan reoliad 12 (neu'n dirymu'r gorchymyn cyn dyfarnu ar yr apêl felly).

**Removal from the list**

**10.**—(1) If the Welsh Ministers decide to remove an ISPI from the list, they must notify the proprietor of the ISPI of that decision.

(2) The Welsh Ministers must notify all local authorities in Wales of that decision.

(3) The removal of the ISPI from the list will be in accordance with regulation 11(3) or 12(3) (as the case may be) if the proprietor exercises the right of appeal referred to in regulation 11, and in all other cases the removal will take effect after 28 days have expired beginning with the day on which the notice of the decision to remove is served on the proprietor.

**Right of appeal**

**11.**—(1) The proprietor of an ISPI may appeal to the First Tier Tribunal against a decision—

(a) to refuse to list an ISPI;

(b) to remove an ISPI from the list;

(c) not to approve arrangements at the ISPI;

(d) not to approve a change to arrangements at the ISPI.

(2) An appeal must be made within the period of 28 days beginning with the day on which notice of the decision to refuse, to remove, or not to approve is served on the proprietor ("the appeal period").

(3) Where an appeal is made against a decision to remove an ISPI from the list—

(a) if the appeal is withdrawn or otherwise disposed of before it is determined by the tribunal under regulation 12, the Welsh Ministers may remove the ISPI from the list on such date after the appeal period as they may determine, and

(b) in any other case, the Welsh Ministers may only remove the ISPI pursuant to the determination made by the tribunal under regulation 12.

(4) In the case of an appeal against a decision to remove an ISPI from the list, if at any time the tribunal considers that there is a risk of serious harm occurring to the welfare of persons before the determination of the appeal, it may by order provide that the ISPI is to be regarded as not included in the list for the purposes of section 56(3) of the Act until the tribunal determines the appeal under regulation 12 (or revokes the order before so determining the appeal).

## Dyfarnu ar apêl

**12.**—(1) Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo trefniadau neu i beidio â chymeradwyo newid i drefniadau, caiff y tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r penderfyniad i beidio â chymeradwyo, neu

(b) cymeradwyo'r trefniadau neu'r newid mewn trefniadau ei hunan.

(2) Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i ddileu'r SOAA o'r rhestr, caiff y tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r penderfyniad, neu

(b) dirymu'r penderfyniad.

(3) Pan fo'r tribiwnlys, o dan baragraff (2)(a), yn cadarnhau penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddileu'r SOAA o'r rhestr ar unrhyw ddyddiad y mae'r tribiwnlys yn ei bennu neu, os nad yw'n pennu dyddiad, ar unrhyw ddyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn ei benderfynu.

(4) Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod cynnwys yr SOAA yn y rhestr, caiff y tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r penderfyniad, neu

(b) cyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gynnwys yr SOAA yn y rhestr.

## Determination of appeal

**12.**—(1) In the case of an appeal against a decision not to approve or not to approve a change to arrangements, the tribunal may—

(a) uphold the decision not to approve, or

(b) itself approve the arrangements or the change in arrangements.

(2) In the case of an appeal against a decision to remove the ISPI from the list, the tribunal may—

(a) uphold the decision, or

(b) revoke the decision.

(3) Where under paragraph (2)(a) the tribunal upholds a decision, the Welsh Ministers must remove the ISPI from the list on such date as the tribunal may specify or, if it does not specify a date, on such date as the Welsh Ministers may determine.

(4) In the case of an appeal against a decision to refuse to include the ISPI in the list, the tribunal may—

(a) uphold the decision, or

(b) direct the Welsh Ministers to include the IPSI in the list.

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
26 Tachwedd 2020

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
26 November 2020

©ⓗHawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

ISBN 978-0-348-20682-1